

# Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant: Problemau ac Atebion o safbwynt pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol

**Dr Sophie Hallett**

## Briff Ymchwil CASCADE

Rhif 3: Mawrth 2015



**CASCADE**

Children's Social Care  
Research and Development Centre  
Canolfan Ymchwil a Datblygu  
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School  
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau  
Cymdeithasol Caerdydd



# Briff Ymchwil CASCADE

Rhif 3: Mawrth 2015



## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant: Problemau ac Atebion o safbwynt pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol

**Dr Sophie Hallett**

### Negeseuon allweddol ar gyfer polisi ac arfer

- Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant (CRhB) yn gymhleth ac mae'n agos ynghlwm wrth broblemau ac anawsterau eraill y daw pobl ifanc ar eu traws.
- Ceir camfanteisio rhywiol ar lawer ffurf, gan gynnwys pobl ifanc sy'n 'gwerthu' ac yn cyfnewid rhyw yn fodd o ymdopi ag adfyd. Er mwyn deall CRhB rhaid deall bod cyfnewid rhyw yn seiliedig ar fodloni anghenion heb eu bodloni (a manteisio ar yr anghenion hynny).
- Dylai canllawiau polisi ac arfer ar CRhB gynnwys mathau eraill o ryw trafodol a allai fod yn fwy byrhoedlog, ond sy'n dal i godi cwestiynau am yr amryw ddewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc. Gall hyn olygu eu bod yn cyfnewid rhyw am dâl ariannol, emosiynol neu faterol.
- Mae 'paratoi i bwrpas rhyw' fel model gweithredol yn gallu achosi problemau i weithwyr proffesiynol. Nid yw bob amser yn llawn egluro sut mae rhai pobl ifanc yn dod i gael profiad o gamfanteisio rhywiol. I rai pobl ifanc, mae cyfnewid rhyw yn ymateb ymdopi, sy'n cael ei wneud mewn amgylchiadau difrifol o andwyol.
- Efallai bydd angen ailwampio'r model 'paratoi i bwrpas rhyw' er mwyn cydnabod bod rhai plant a phobl ifanc yn ymwybodol o natur gymhellol eu perthnasoedd. Dylid rhoi mwy o bwysigrwydd a sylw i'w rhesymau dros ddymuno aros mewn perthnasoedd sy'n eu gwneud yn destun camfanteisio.
- Mynd i'r afael â'r problemau a'r anawsterau sylfaenol a gaiff pobl ifanc yw'r allwedd i ymateb i CRhB. Mae'n bosibl y bydd ymdrin â chamfanteisio rhywiol yn fater ar ei ben ei hun sy'n arwain, i'r gwrthwyneb, at adael pobl ifanc yn fwy agored i niwed os nad eir i'r afael hefyd â'r problemau eraill hyn (h.y. camddefnyddio sylweddau, tai, iechyd meddwl).
- Mae'n hanfodol creu cyfleoedd i bobl ifanc fagu perthnasoedd cadarnhaol. Mae'n allweddol hyrwyddo cyfranogiad gweithgar pobl ifanc yn eu cymorth eu hunain.



**CASCADE**

Children's Social Care  
Research and Development Centre  
Canolfan Ymchwil a Datblygu  
Gofal Cymdeithasol Plant

 Cardiff School  
of Social Sciences

 Ysgol Gwyddorau  
Cymdeithasol Caerdydd

**CARDIFF**  
UNIVERSITY  
PRIFYSGOL  
CAERDYDD



## Cefndir

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant (CRhB) yn rhywbeth cymharol newydd i bolisiau, deddfwriaeth a chanllawiau gofal cymdeithasol ac amddiffyn plant. Cyflwynwyd y term 'camfanteisio'n rhywiol ar blant' yng Nghymru a chenhedloedd eraill y DU yn 2009 (gweler yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF), 2009; LICC 2011). Mae'r ymchwil am CRhB wedi canolbwyntio ar nodi ffactorau risg ac ymyriadau priodol. Bu llawer o'r ymchwil hwn yn feintiol, ac yn seiliedig ar ddadansoddi ffeiliau achos. Prin oedd yr wybodaeth am safbwyntiau pobl ifanc.

Mae canfyddiadau ymchwil wedi codi pryderon am y diffyg ymwybyddiaeth am CRhB. Mae hyn yn benodol ymhlith ymarferwyr a'r rheini sydd mewn sefyllfa i adnabod a chyfeirio pobl ifanc. Pryderir y gellid ystyried bod y bobl ifanc yn drafferthus, neu eu bod yn dewis ffordd o fyw, yn hytrach na'u bod yn agored i niwed.

## Yr astudiaeth ymchwil

Astudiaeth ansoddol oedd hon. Y nod oedd deall mwy am CRhB a'r hyn y gellir ac y dylid ei wneud yn ei gylch – a hynny o safbwyntiau pobl ifanc, a gweithwyr proffesiynol sydd â rôl allweddol i'w chwarae mewn nodi CRhB ac ymateb iddo. Roedd yr ymchwil yn cynnwys 9 o bobl ifanc â phrofiadau o CRhB, a 25 o weithwyr proffesiynol o gefndiroedd plismona, iechyd, addysg, gwaith ieuencid, y trydydd sector a gwaith cymdeithasol.

## Canfyddiadau allweddol: Safbwyntiau pobl ifanc

Roedd y bobl ifanc yn teimlo y buont yn agored i CRhB oherwydd materion a oedd yn eu gadael yn teimlo wedi'u 'blotio allan'. Roeddent yn teimlo'n anweledig mewn amryw ffyrdd i ymarferwyr, i'w teuluoedd, ac i'r rheini a ddylai fod wedi'u helpu. Roedd y bobl ifanc o'r farn y gallai CRhB ddigwydd i unrhyw un sy'n gorfod ymdopi heb y gofal, y sylw a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar y rhan fwyaf o bobl. Y gwendidau allweddol oedd:

Ansefydlogrwydd yn eu gofal, ac ansicrwydd am le i'w alw'n gartref a theimlo'n gartrefol yno, neu ddiffyg lle fel hwn; Teimladau o wahaniaeth a gwaharddiad rhag yr hyn yr oeddent yn ei ystyried

yn fywyd normal; Anawsterau gyda theulu a pherthnasoedd â ffigurau allweddol eraill; Dryswch ynglŷn â rhyw a'u cyrff.

Bu'r bobl ifanc yn sôn am risgiau yn ffyrdd iddynt ymdopi â theimladau o fod yn agored i niwed. Roedd gweithgareddau peryglus yn fodd iddynt fynnu cydnabyddiaeth a theimlo bod ganddynt reolaeth. Y risgiau allweddol oedd:

- 'Cuddio o'r golwg': gall rhai pobl ifanc ynysu eu hunain oddi wrth ffrindiau, teulu, yr ysgol, gan deimlo'n fwy diogel yn cyfathrebu â phobl drwy negeseuon testun, sgwrsio parod ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein.

- 'Cadw cwmni': gall rhai pobl ifanc fod allan mewn grwpiau a thorfeydd. Efallai bod modd eu gweld mewn mannau cyhoeddus, fel ar y stryd ac mewn parciau. Gall cadw cwmni i'w gilydd yn y dorf fod yn fodd o guddio eu teimladau mewnol.

- Alcohol a chyffuriau: i rai pobl ifanc, yr unig reolaeth sydd ganddynt, yn eu barn hwy, yw'r rheolaeth ar y graddau y gallant golli rheolaeth ar eu hunain.

*'Mae alcohol yn dylanwadu arnoch, wyddoch chi, fel na fyddwch chi'n gwybod beth fyddwch chi'n ei wneud, yr un fath â chyffuriau. Mae'n golygu nad oes rhaid ichi boeni rhagor, does dim rhaid ichi feddwl am ddim. Rydych chi'n credu y gallwch chi wneud unrhyw beth'* – Sarah

- Rhyw: i rai pobl ifanc, mae rhyw neu 'gysgu o gwmpas' yn gallu bod yn fodd o adennill pŵer dros eu cyrff. Mae cyfnewid rhyw am bethau'n gallu bod yn fodd o ganfod ac ailosod gwerth ar yr hyn sydd wedi'i ddiraddio, yn eu barn nhw.

*'Mae'n ei ddiraddio ychydig. Rydych chi'n meddwl, o wel, man a man cael fy nhalu am ei wneud'* - Katie

Gall camfanteisio rhywiol ddigwydd o ganlyniad i 'baratoi i bwrpas rhyw' a pherthnasoedd gwael. Gall ddigwydd pan fydd pobl ifanc yn canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle teimlant nad oes dewis ganddynt ond cyfnewid rhyw neu



weithgarwch rhywiol. Gall ddigwydd pan fydd pobl ifanc yn teimlo bod 'gwerthu rhyw' yn fodd o fodloni eu hanghenion.

I rai pobl ifanc, weithiau gall cyfnewid rhyw fod fel petai'r unig ateb, neu'r opsiwn 'lleiaf gwaethaf'. Bu'r bobl ifanc i gyd yn sôn am eu profiadau fel pobl yn manteisio ar eu gwendidau, neu'n bodloni angen a oedd ganddynt. Yn bwysig, roedd y bobl ifanc yn mynnu bod modd atal CRhB. Yn ôl Nathan:

*'dydy hyn ddim yn digwydd yn rhwydd, mae'n digwydd am nad yw pethau'n cael eu datrys, all pobl ddim ymdopi cystal a dydyn nhw ddim yn cael yr help sydd ei angen arnynt, am ba bynnag reswm, a byddan nhw'n cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd ac weithiau MAE'N mynd â nhw yno a phetai pobl yno i'w helpu yn y lle cyntaf, fydden nhw ddim, ac yna fyddai hyn ddim yn digwydd'* – Nathan

### Canfyddiadau allweddol: Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol

Ystyriai'r gweithwyr proffesiynol y gellid camfanteisio'n rhywiol ar unrhyw berson ifanc. Roedd eu pryderon yn canolbwyntio ar bobl ifanc sydd y tu allan i ddylanwadau, gwarchodaeth a goruchwyliaeth gadarnhaol gan oedolyn. Ystyrid mai'r rheini sy'n fwyaf agored i niwed yw'r rheini:

- Sydd wedi cael ansefydlogrwydd yn eu bywydau
- Sy'n cael prinder sylw ac sydd wedi'u hesgeuluso'n emosiynol
- Sydd â pherthnasoedd a therfynau dryslyd sy'n peri gofid, yn enwedig o ran cyffwrdd
- Sydd heb un person yn gofalu amdanynt.

Roedd y gweithwyr proffesiynol yn poeni y gallai'r profiad gofal gyfrannu at wendid person ifanc. Roeddent yn poeni am y diffyg sylw a'r diffyg arddangosiadau anwyldeb corfforol y byddai pobl ifanc mewn gwasanaethau cymdeithasol yn eu cael. Buont yn siarad am gyfyngiadau'r rôl broffesiynol, bod angen cynnal terfynau proffesiynol, a'r diffyg amser neu gylch gwaith i allu cefnogi pobl ifanc yn y ffordd y byddent yn ei hoffi.

Roedd ffyrdd gwahanol a lluosog o ddeall y ffordd y gall pobl ifanc ddod i gyfnewid rhyw. Gall CRhB fod yn fath o baratoi i bwrpas rhyw a gorfodaeth, amodau a gwobrau mewn perthnasoedd camdriniol, bwlio cymheiriaid, canlyniad ffyrdd 'parti' o fyw, a phobl ifanc yn cyfnewid rhyw i fodloni angen. Bu'r holl weithwyr proffesiynol yn siarad am yr anawsterau wrth adnabod CRhB. Roedd nifer o'r gweithwyr proffesiynol ychydig yn ddrislyd ac ansicr ynghylch ystyr CRhB. Bu rhai'n siarad yn uniongyrchol am y dryswch hwn.

*'Mae'r sefyllfaoedd gwaethaf un, ac yna mae'r holl le hwnnw rhyngddynt'* - Matthew, gweithiwr ieuencid

Bu rhai o'r gweithwyr proffesiynol yn trafferthu i wybod sut mae deall rhan pobl ifanc mewn CRhB pan nad oedd 'paratoi i bwrpas rhyw' dan sylw. Buont yn sôn hefyd am anawsterau'n cael cydweithwyr i gydnabod bod pobl ifanc yn destun camfanteisio rhywiol. Buont yn siarad am yr heriau o weithio gyda phobl ifanc a fu â rhan mewn CRhB.

*'dim ond pan fydd person ifanc am gael ei helpu y gellir ei helpu, wyddoch chi, gyda'r ewyllys gorau yn y byd a llawer a llawer a llawer o hyfforddiant, peth anodd iawn yw helpu rhywun nad yw am gael ei helpu'* - Cathy, maethu

Mae pwysigrwydd gwaith rhyngasiantaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn allweddol i weithio gyda phobl ifanc sy'n destun CRhB. Bu'r gweithwyr proffesiynol yn amlygu'r rôl bwysig i fentoriaid ieuencid, a'r rheini sy'n gallu magu perthynas â phobl ifanc. Buont yn siarad am yr angen i ymateb i'r gwendidau hynny sy'n gallu gwneud pobl ifanc yn agored i CRhB.

*'Magu perthynas gadarnhaol dda â phobl ifanc a bod hynny'n fuddiol ynddo'i hun'* - Max, gofal preswyl i blant

Mae'r negeseuon hyn yn bwysig ac mae ganddynt oblygiadau i bolisiau ac arferion. Fel y dywed Leah: *'mae angen iddynt glywed pobl fel fi'*.

## Cydnabyddiaeth a manylion pellach

Dymuna'r awdur ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwil – yn bobl ifanc ac yn weithwyr proffesiynol – a fu mor barod eu hamser a'u barn. Diolch yn benodol hefyd i'r holl ymarferwyr yng Ngwasanaeth Seraf Barnardo's, a hefyd i Jan Coles a Dr Sam Clutton.

Cynhaliwyd y prosiect ymchwil hwn yn rhan o ysgoloriaeth ymchwil PhD ym Mhrifysgol Caerdydd ac fe'i hariannwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR), sy'n rhan o Lywodraeth Cymru. Mae copi electronig o'r traethawd cyfan wedi'i osod yn ystorfa sefydliadol Prifysgol Caerdydd, OnlineResearch@Cardiff (ORCA). Gellir gweld hwn drwy <http://orca.cf.ac.uk/58234>. Fel arall, anfonwch e-bost at Sophie Hallett, [Halletts1@cf.ac.uk](mailto:Halletts1@cf.ac.uk)

## Cyfeiriadau

DCSF. (2009) *Safeguarding Children and Young People from Sexual Exploitation*. DCSF.

LICC. (2011) *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol*

Canllawiau ategol Diogelu Plant: *Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*



**CASCADE**

Children's Social Care  
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu  
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School  
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau  
Cymdeithasol Caerdydd

